LIVING STREETS

LET'S WALK TO SCHOOL

CA2/P4-7

# OLION TROED – bodau dynol ac anifeiliaid yn cerdded



**Hyd: Tua 60 munud**
(ac eithrio'r estyniad a'r adran gartref)



## Nod

Galluogi plant i adnabod trywydd anifeiliaid a chymharu eu harferion cerdded ag arferion anifeiliaid ac adar o ran natur.

## Amcanion

**Bydd y wers hon yn galluogi disgyblion i wneud y canlynol:**

- Ymchwilio i sut y gallwn olrhain symudiadau anifeiliaid.
- Dysgu i ba raddau mae gwahanol anifeiliaid yn cerdded o'u cynefinoedd bob dydd.
- Cymharu pa mor bell rydyn ni'n cerdded bob dydd o'n cynefin a beth allwn ni ei wneud i gerdded mwy.

## Adnoddau

- 'Anifeiliaid, olion traed a phellter' wedi'i dorri a thaflen adnoddau paru cardiau (ar gael ar ddiwedd y ffeil hon)
- Llinell olchi a rhywfaint o begiau (dewisol)
- Bag o flawd (i ddisgyblion edrych ar olion eu hesgidiau eu hunain yn y dosbarth – dewisol)
- Cyfarwyddiadau i wneud trap ôl troed. Mae nifer o opsiynau ar gael ar-lein. Ewch i chwilio am 'trap ôl troed anifail' (dewisol ar gyfer estyniad gartref).

## Cysylltiadau i'r cwricwlwm

- **GWYDDONIAETH** – anifeiliaid, ymchwilio, mesur, dosbarthu
- **DAEARYDDIAETH**
- **ABGI/IECHYD A LLES**
- **CYMRAEG/SAESNEG/IEITHOEDD** – ysgrifennu creadigol, trafodaeth

## Paratoi

Cyn y sesiwn, argraffwch nifer o gopïau o'r daflen waith ategol o'r enw 'Anifeiliaid, olion traed a phellter' sydd ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon. Cadwch un copi i chi eich hun, yna torrwch y copïau eraill a chadwch yr holl ddarnau wedi'u torri gyda'i gilydd mewn set.  Rhowch un set i bob grŵp yn y dosbarth. Rydym yn argymell bod grwpiau bach o 4/5 o ddisgyblion yn cydweithio ar y gweithgaredd hwn.



# Cyflwyniad

1. Cyflwynwch y plant i'r syniad o olion traed a sut y gellir defnyddio'r rhain i nodi pa anifeiliaid sydd wedi bod mewn ardal benodol.
2. Gallwch hefyd ddangos fideo rhagarweiniol byr ar ôl troed ac olrhain anifeiliaid. Mae nifer ar gael ar-lein.
3. Cyflwynwch y bydd disgyblion yn defnyddio eu sgiliau ditectif i baru trywydd ag anifeiliaid.
4. Byddant hefyd yn edrych ar ba mor bell mae'r anifeiliaid hyn yn teithio bob dydd ac yn meddwl am sut rydym ni, fel pobl, yn teithio bob dydd.

# Datblygiad



## Rhan 1

- Dechreuwch drwy ofyn i ddisgyblion feddwl am eu hôl troed eu hunain maen nhw'n eu gadael ar ôl yn yr eira/mwd/tywod. Ydy'r argraffiadau hyn yn dod o'n hesgidiau neu esgidiau glaw? Beth am yr argraffiadau y byddwn ni'n eu gadael yn y tywod (printiau troednoeth)? Beth allai'r rhain ei ddweud wrthym am y bobl sydd wedi'u gadael? Beth allwn ni ei fesur i roi rhai cliwiau i ni?

  **GWEITHGAREDD YMARFEROL DEWISOL:** dylech gael hambwrdd gyda thywod llaith ynddo (neu wasgaru blawd ar hambwrdd/bocs neu ran fach o'r llawr) a gwahodd disgyblion i roi un droed yn yr hambwrdd i weld pa brint y mae eu hesgidiau'n ei adael (neu ei wneud yn droednoeth). Sut maen nhw'n cymharu ag ôl troed ei gilydd ac ôl troed yr athro?
- Siaradwch am sut mae anifeiliaid fel pobl hefyd yn gadael olion traed, ond dydyn nhw ddim yn gwisgo esgidiau!

## Rhan 2

- **GWEITHGAREDD PARU CARDIAU.** Gofynnwch i bob grŵp bach o ddisgyblion weithio gyda'i gilydd i geisio paru'r printiau â'r anifeiliaid (gan ddefnyddio'r daflen adnoddau 'Anifeiliaid, olion traed a phellter'). Daliwch y cardiau 'Pellteroedd' yn ôl am y tro, byddwn yn defnyddio'r rhain yn nes ymlaen. **A all disgyblion baru'r argraffiadau gyda'r anifeiliaid?** Beth yw eu rhesymau dros y parau maen nhw'n eu gwneud? Gallwch ddefnyddio naill ai ffotograffau neu luniau o'r olion traed, yn dibynnu ar ba mor hawdd/anodd yr hoffech wneud y dasg (neu ddefnyddio'r ddau). Rhannwch yr atebion a thrafod unrhyw anghysondebau.
- **O'r anifeiliaid a drafodwyd, siaradwch am ba mor bell maen nhw'n meddwl mae pob un o'r anifeiliaid hyn yn cerdded/hedfan o'i gartref bob dydd (e.e. pellter byr, canolig neu hir).** A allant drefnu'r lluniau o'r anifeiliaid mewn llinell o'r rhai sy'n cerdded y lleiaf i'r rhai sy'n cerdded fwyaf?

Efallai y gallech ddefnyddio llinell olchi a chael disgyblion i wneud hyn fel gweithgaredd dosbarth cyfan. Defnyddiwch y pegiau i osod y lluniau mewn trefn ar hyd y llinell olchi, o'r pellter byrraf a gerddwyd i'r pellter hiraf a gerddwyd. Trafodwch atebion a chaniatáu cyfleoedd i ddisgyblion newid eu dewisiadau, ac yna datgelu atebion (wedi'u darparu). Fel arall, rhannwch y cardiau 'Pellteroedd' a gadewch i'r plant baru rhain gyda'r anifeiliaid, yna trefnwch nhw o'r pellter lleiaf a deithiwyd i'r pellter mwyaf a deithiwyd mewn diwrnod.

- **Nawr gofynnwch i blant 'Beth allai ein cynefin ein hunain fod?'.** Symudwch ymlaen i drafod i ba raddau y mae pob disgybl yn cerdded o'i gynefin (cartref) bob dydd. Mae hwn hefyd yn gyfle i ddisgyblion edrych ar fapiau ar-lein ac ati. 'Wyt ti'n cerdded i'r ysgol? Pa mor bell ydy hyn?'. Gall pob disgybl amcangyfrif pa mor bell (pellter) maen nhw'n ei gerdded bob dydd neu pa mor hir (amser) maen nhw'n ei dreulio yn cerdded bob dydd.
- **Nawr byddwn yn ceisio paru disgyblion â'r anifeiliaid yn seiliedig ar y pellteroedd a sut y gwnaethant deithio i'r ysgol ar y diwrnod hwnnw.**
  - Mae'r rhai a gerddodd i'r ysgol yr holl ffordd fel yr anifeiliaid sy'n cerdded pellter hir (h.y. gwiwerod llwyd neu lwynog). Gall hyn gynnwys y rhai sy'n beicio neu'n mynd ar eu sgwter yr holl ffordd i'r ysgol.
  - Mae'r rhai a wnaeth Parcio a Cherddded neu wnaeth ddod oddi ar y bws yn gynnar fel yr anifeiliaid sy'n cerdded pellter canolig (h.y. draenog neu gwningen).
  - Mae'r rhai a ddaeth i'r ysgol mewn car heddiw fel yr anifeiliaid pellter byr (h.y. colomennod gwyllt neu froga). Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n teithio ar fws neu ar drên.
- **Sut y gall pob disgybl gynnwys mwy o gerdded yn eu diwrnod i fod yr anifail nesaf ar hyd y gadwyn?** Gall disgyblion hefyd wneud addewid i gerdded, beicio, defnyddio sgwter neu wneud Parcio a Cherddded mwy os dymunant.
- **Ceisiwch greu amgylchedd cynhwysol yn ystod y drafodaeth hon.** Ni ddylai disgyblion sy'n byw ymhell o'r ysgol, neu nad ydynt efallai'n gallu cerdded i'r ysgol am resymau eraill, deimlo'n ddigalon. Atgoffwch y disgyblion bod mynd ar olwynion i'r ysgol, gwneud parcio a cherddded, neu ddod oddi ar y bws yn gynnar i gyd yn ddewisiadau amgen gwych.

## Gyda phawb

1. Ewch ati i grynhoi dysgu'r diwrnod – mae anifeiliaid ac adar yn gadael olion traed fel y mae pobl yn ei wneud. Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon, ac os byddwn yn meddwl fel ditectifs, gallwn ddeall pa anifeiliaid sy'n gadael pa olion traed a pha mor bell y gallant gerdded neu hedfan bob dydd.

2. Beth all pob plentyn ei wneud i gynnwys mwy o gerdded yn ei ddiwrnod a symud o fod yn froga i fod yn llwynog (er enghraifft)? A all y rhai sydd eisoes yn cerdded llawer (h.y. y llwynogod yn y dosbarth) rannu sut maen nhw'n cyflawni hyn gyda gweddill y dosbarth ac annog eraill i wneud yr un peth os gallant?

## Estyniad

- Rydym wedi edrych ar olion traed dynol ac anifeiliaid/adar yma. Ond ydych chi wedi clywed am ôl troed carbon ac ôl troed digidol? Allwch chi weithio allan beth allai'r rhain fod?
- A all disgyblion ragweld sut y gallai ôl troed anifeiliaid eraill edrych – eliffant? Llewpard? Arth? Anogwch nhw i lunio rhagfynegiadau ac egluro eu rhesymu.
- Beth mae'r pellter rhwng olion traed yn ei ddweud wrthym? A all disgyblion ddyfeisio arbrawf i brofi eu damcaniaeth (awgrym: cerdded neu redeg yn y mwd a mesur y pellter rhwng eich olion traen. Beth all hyn ei ddweud wrthym am ba mor gyflym y gallai'r person/anifail fod wedi bod yn teithio?

## O adref

1. Adeiladwch drap ôl troed anifeiliaid/ trap byg pryfed a gweld pa anifeiliaid sy'n ymweld â'ch cymdogaeth. Gallwch ddod o hyd i gyfarwyddiadau i adeiladu eich trap ar-lein. Chwiliwch 'trap ôl troed anifeiliaid'.
2. Ewch am dro a chyfrifwch eich camau. Allwch chi weithio allan y pellter rydych chi wedi'i gerdded o nifer y camau rydych chi wedi'u cyfrif?
3. Ysgrifennwch stori fer gan ddychmygu eich bod yn anifail. Beth allech chi ei weld a'i glywed ar eich anturiaethau? Pa beryglon allech chi ddod ar eu traws pan fyddwch chi'n teithio o gwmpas?



**RHANNWCH GREADIGAETHAU EICH PLANT GYDA NI.**

Tagiwch ni **@LivingStreets** neu anfon e-bost atom ar **commsteam@livingstreets.org.uk**

Ni yw Living Streets, yr elusen yn y DU ar gyfer cerdded bob dydd. Mae'r adnoddau dysgu hyn yn cefnogi cyfranogiad yn WOW - yr her blwyddyn o hyd i gerdded i'r ysgol.

Am ragor o wybodaeth ar WOW, ewch i **www.livingstreets.org.uk/WOW**

Cysylltu â ni: walktoschool@livingstreets.org.uk 020 7377 4900

Mae Living Streets (The Pedestrians'Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif 1108448 (Cymru a Lloegr) a SCO39808 (yr Alban). Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant (Cymru a Lloegr), Rhif Cofrestru'r Cwmni 5368409. Swyddfa gofrestredig 2 America Square, Llundain, EC3N 2LU.

LIVING STREETS LET'S WALK TO SCHOOL

# Deunydd cefnogol- Olion Traed, Anifeiliaid, Pellteroedd

**Ar gyfer yr Athro:** Argraffu a thorri'r darnau perthnasol i ffurfio set. Yn gyntaf, gofynnwch i'r disgyblion geisio paru'r printiau â'r anifail. Yna gofynnwch iddyn nhw geisio paru'r pellteroedd a deithiwyd hefyd (os ydyn nhw'n ansicr ar fesuriadau metrig, gallwch hepgor y cardiau hyn a gofyn i'r disgyblion drefnu'r anifeiliaid yn nhrefn y pellter lleiaf a gerddwyd i'r pellter mwyaf a gerddwyd mewn diwrnod).

## DIAGRAM ÔL-TROED



## ÔL-TROED MEWN EIRA



## ANIFAIL – colomen wyllt



## PELLTER A DEITHIWYD POB DYDD

Dydw i ddim yn cerdded mor bell â hynny bob dydd dim ond tua 40 metr.

Dwi'n gallu hedfan hyd at 16 Cilomedr y dydd.

## DIAGRAM ÔL-TROED



## ÔL-TROED MEWN EIRA



## ANIFAIL – broga



## DAILY DISTANCE TRAVELLED

Rwy'n cerdded tua 500 metr y dydd.

## DIAGRAM ÔL-TROED



## ÔL-TROED MEWN BAW



## ANIFAIL – draenog



## PELLTER A DEITHIWYD POB DYDD

Cerdded 2-3 Cilomedr (efallai y byddaf yn rholio ychydig o'r ffordd)

Rwy'n teithio yn y nos yn bennaf.

## DIAGRAM ÔL-TROED



## ÔL-TROED MEWN EIRA



## ANIFAIL– cwningen



## PELLTER A DEITHIWYD POB DYDD

Rwy'n hopian hyd at 4 Cilomedr y dydd.

DIAGRAM ÔL-TROED



ÔL-TROED MEWN EIRA



ANIFAIL – gwiwer lwyd



PELLTER A DEITHIWYD POB DYDD

Yn cerdded hyd at 8 Cilomedr yn ystod y dydd.

DIAGRAM ÔL-TROED



ÔL-TROED MEWN EIRA



ANIFAIL – llwynog



PELLTER A DEITHIWYD POB DYDD

Rwy'n cerddded hyd at 10 Cilomedr, fel arfer yn y nos.